# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5**
**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Iau, 9 Chwefror 2023
Amser: 10.00 - 12.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13207

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Sam Rowlands AS |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd<br>David Lloyd-Thomas, Llywodraeth Cymru<br>Peter Fox AS, Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil<br>Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd - Peter Fox AS<br>Elfyn Henderson, Y Gwasanaeth Ymchwil<br>Martin Jennings, Y Gwasanaeth Ymchwil, |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## Cofrestru (09.30-09.45)

## Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (09.45-10.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Dirprwyodd Sam Rowlands AS ar ran Peter Fox AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rhagor o wybodaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr – 17 Ionawr 2023

2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Newidiadau Arfaethedig i Brotocol y Gyllideb – 17 Ionawr 2023

2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Pwyllgor: Taliad costau byw i staff y Comisiwn – 19 Ionawr 2023

2.4 PTN 4 – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2021-22 – 19 Ionawr 2023

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – 27 Ionawr 2023

2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Cyllid Rhyngweinidogol (F:ISC) – 30 Ionawr 2023

2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – 18 Ionawr 2023

## 3 Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru) gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a chan David Lloyd-Thomas, Pennaeth yr Uned Polisi a Strategaeth Bwyd, Llywodraeth Cymru.

## Egwyl (10.30-11.15)

## 4 Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru) gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil; Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd; Martin Jennings, y Gwasanaeth Ymchwil; ac Elfyn Henderson, y Gwasanaeth Ymchwil.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Bwyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2023-24

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilio Cymru cywiredig ar gyfer 2023-24 o dan Reolau Sefydlog 18.10(x) yn unol ag adran 24(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.